# RAYMOND DAVIES yn trafod
# y greadigaeth – yn y Gymraeg

O DRO i dro fe welir y ddwy gyfrol, **Hanes y Ddaear a'r Creaduriaid Byw** gan Oliver Goldsmith ar werth yn **Y Casglwr** – maent yn ddigon cyfarwydd i lyfrwerthwyr a chasglwyr llyfrau Cymraeg.

Roedd Oliver Goldsmith (1730-74) yn un o lenorion amlycaf y ddeunawfed ganrif – ef a ysgrifennodd y gomedi *She Stoops to Conquer* a'r nofel *The Vicar of Wakefield* ymhlith clasuron eraill.

Ond er ei enwogrwydd a'i ddawn lenyddol, dibynnwn bron yn gyfangwbl ar gofiannau amherffaith pobl eraill am wybodaeth o fywyd Goldsmith. Ni chadwodd ddyddiadur ac ond ychydig o'i lythyrau sy'n bodoli.

Yr un yw'r stori gydag R E Williams, sef cyfieithydd gwaith cynhwysfawr Goldsmith ar fyd natur i'r Gymraeg. Prin iawn yw'r wybodaeth fywgraffyddol a gawn o ffynonellau gwreiddiol. Ond pwy oedd R E Williams?

Gweinidog gyda'r Annibynwyr oedd Robert Edward Williams. Ar ôl bod yn fyfyriwr yn Athrofa Annibynnol y Bala, bu'n weinidog ar eglwysi yn Llanddeusant, Sir Fôn (1848-59), Rhuthun (1859-62), Birmingham (1863-66) a Chroesoswallt (1872-74). Yn ystod y blynyddoedd 1866-72 yr oedd ym Miwmaris yn canolbwyntio ar waith llenyddol. Ei ffugenw oedd 'Apeles'.

Croniclwyd hanes ei yrfa gan D J Williams yn ei lawysgrif **Hanes Coleg Bala Bangor** (Llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru 15508D). Dim ond ychydig o wybodaeth ychwanegol sydd gennym am fywyd R E Williams a hynny am ddechrau a diwedd ei oes. Ganwyd ef yn 1825 yn fab i Edward Williams, crydd ym Mhwllheli ond yn 1834 symudodd gyda'i deulu i Faentwrog, lle yr oedd ei dad yn bregethwr cynorthwyol yng nghapel yr Annibynwyr.

Yn 1874, ymddeolodd o'r weinidogaeth ac aeth i fyw yn Lerpwl lle bu farw yn 1879. Yn ogystal ag ethryglau, cyhoeddodd bregethau a llyfrau ar gyfer yr Ysgol Sul ac ef oedd golygydd **Credoau y Byd** (1867-70), dwy gyfrol a seiliwyd ar *The Faith of the World* gan James Gardner.

* * *

CYFIEITHIAD o'r Saesneg gwreiddiol, sef *An History of the Earth and Animated Nature,* yw'r ddwy gyfrol sy'n dwyn y teitl **Hanes y Ddaear a'r Creaduriaid Byw.** Cyhoeddwyd yr argraffiad Saesneg cyntaf yn 1774, ar ôl marwolaeth yr awdur, ac fe'i ail gyhoeddwyd droeon gan wahanol gyhoeddwyr cyn i R E Williams ei gyfieithu i'r Gymraeg bron ganrif yn ddiweddarach.

Ymddangosodd **Hanes y Ddaear a'r Creaduriaid Byw** rhwng 1864 a 1867. Fe'i cyhoeddwyd gan Fullerton mewn rhannau y gellid eu rhwymo'n ddwy gyfrol gan y tanysgrifwyr. Wrth gwrs, y peth arbennig am y cyfrolau yw'r lluniau, sef 73 o engrafiadau dur wedi eu lliwio â llaw sy'n portreadu anifeiliaid y byd.

Yn wir, mae'r cyfrolau ymhlith yr harddaf a gyhoeddwyd yn ystod 'oes aur y cyhoeddwyr yng Nghymru', sef ail hanner y ganrif ddiwethaf, pan oedd galw cynyddol am lyfrau Cymraeg ym mhob pwnc.

Nid ymchwil gwreiddiol Goldsmith yw cynnwys y cyfrolau ond gwaith poblogaidd, cyffredinol ydyw yn seiliedig ar lyfrau naturiaethwyr eraill. Erbyn heddiw, ymddengys y gwaith yn hynod o hen ffasiwn yn wyneb datblygiad gwyddoniaeth – yn arbennig felly yr argraffiad Cymraeg gyda'i holl enwau anghyffredin ar anifeiliaid.

Awdur cyflogedig *The History of the Earth and Animated Nature* oedd Oliver Goldsmith a chyfieithydd hûr oedd R E Williams. Gwyddom fod y ddau yn dlawd – Goldsmith yntau yn ŵr afradlon yn ceisio ennill bywoliaeth drwy ysgrifennu llenyddiaeth, ac yn ddiau, yn derbyn gwaith cyfieithu er mwyn ychwanegu at ei gyflog fechan fel gweinidog megis R E Williams hefyd.

* * *

MAE rhannau amlwg hefyd gan Gymry eraill yn y stori hon. Yn gyntaf, Thomas Pennant (1726-98), y sŵolegydd enwog o Downing, Sir Fflint – gwyddom i Goldsmith ddefnyddio llawer ar ei lyfrau wrth baratoi ei *Animated Nature*. Ac yn ail, Gweirydd ap Rhys (Robert John Pryse, 1807-89), un o lenorion amlycaf Cymru'r ganrif ddiwethaf – ef a gyfieithodd yr *Intorductory View of the Animal Kingdom* sy'n fath o ragarweiniad i waith Goldsmith.

Mae'n werth nodi pan oedd R E Williams yn dechrau yn y weinidogaeth yn Llanddeusant, bu'n rhoi gwersi preifat i fab Gweirydd ap Rhys, sef John Robert Pryse, 'Golyddan' (1840-62).

Heddiw, tua £35 yw gwerth y ddwy gyfrol, **Hanes y Ddaear a'r Creaduriaid Byw** wedi eu rhwymo. Efallai y tybiwch y dylai fod mwy o werth ar gyfrolau sydd, wedi'r cyfan, yn cynnwys cymaint o luniau wedi eu lliwio â llaw.

Ond roedd yr argraffiad hwn yn un niferus iawn ac felly nid ydynt yn llyfrau prin. Hefyd, defnyddiwyd yr un platiau mewn argraffiadau Saesneg o'r gwaith a gyhoeddwyd gan Fullerton. Serch hynny, mae mwy o werth ar y rhannau mewn cloriau papur.

Cyhoeddwyd y gwaith mewn 36 o rannau misol – (swllt yr un) ac hefyd mewn deunaw rhifyn dwbwl (deuswllt yr un). Oes copiau felly gennych chi? Mae hyd yn oed y Llyfrgell Genedlaethol angen copïau felly!


# LLYFRAU AR WERTH
## Hedd ap Emlyn
### Maes y Meillion, Ffordd Wrecsam, Johnstown, Wrecsam, Clwyd.
### (Ffôn: (0978) 841356

| | | |
|---|---|---|
| JONES, T. Gwynn: Ceiriog – detholiad o'i weithiau. | £ | 1.50 |
| PARRY-WILLIAMS, T.H: Ystoriau heddiw | £ | 1.00 |
| WILLIAMS, Ifor: Lectures on Early Welsh Poetry | £ | 1.00 |
| JONES, T. Gwynn: Pobun | £ | 1.00 |
| MORGAN, J.J: Canmlwyddiant Daniel Owen | £ | 1.00 |
| WYNNE, Elis: Gweledigaethau'r Bardd Cwsc (gol. Emrys ap Iwan, 1898) | £ | 2.00 |
| LEWIS, Henry: Datblygiad yr Iaith Gymraeg | £ | 2.50 |
| LLWYD, Morgan: Llyfr y Tri Aderyn (GPC 1928) | £ | 1.50 |
| WYNNE, Elis: Gweledigaethau'r Bardd Cwsc (GPC 1948) | £ | 1.00 |
| HUGHES, T. Rowland: Y Ffordd | £ | 1.50 |
| EAMES, Marion: Seren Gaeth (copi newydd) | £ | 5.50 |
| ELLIS, T.E: Gweithiau Morgan Llwyd (cyfrol 1) | £ | 5.00 |
| LEWIS, Saunders: Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg (arg 1) | £ | 6.00 |
| WILLIAMS, D.J: A.E. a Chymru | £ | 2.00 |
| HUMPHREYS, Emyr: Tri Llais (arg. 1) | £ | 3.00 |
| JENKINS, Emlyn G: Cofiant Elfed | £ | 1.50 |
| PARRY-WILLIAMS, T.H: Ysgrifau (arg. 1) | £ | 2.50 |
| MOELWYN: Pedair Cymwynas Pantycelyn | £ | 1.00 |
| LEWIS, Henry: Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg | £ | 1.00 |
| LEWYS, Huw: Perl Mewn Adfyd | £ | 2.00 |
| WILLIAMS, Waldo: Dail Pren | £ | 1.00 |
| PHILLIPS, William: Rhosllanerchrugog – Atgofion | £ | 1.50 |
| EVANS, Dyfed: Bywyd Bob Owen (arg. 2) | £ | 2.50 |
| IFANS, Rhiannon: Sers a Rybana | £ | 6.00 |

CYFRES Y FIL: Gweithiau Dewi Medi (£1), Capelulo (£1), Tro i'r De (£1), Gwilym Hiraethog (£1), Hwiangerddi (£1.50), Geiriadur Cymraeg a Saesneg (£1.50), Diarhebion (£1.50), Dafydd Jones o Drefriw (£1), Sion Cent (£1), Islwyn (£1).

| | | |
|---|---|---|
| NORTH, F.J: Snowdonia. | £ | 18.00 |
| EVANS, Ennis: Pruddiaith | £ | .75 |
| CYNDDELW: Gorchestion Beirdd Cymru | £ | 1.50 |
| WILLIAMS, R. Bryn: Straeon Patagonia | £ | 1.00 |
| LLWYD, Morgan: Llythyr i'r Cymry Cariadus. Ll. Ford Gron | £ | .50 |
| EVANS, Owen: Dinbych yn ei Hynafiaethau a'i Henwogion | £ | 6.00 |
| BOWEN, D.J: Gruffydd Hiraethog a'i Oes | £ | 1.00 |
| FYNES-CLINTON, F: Welsh Vocabulary of the Bangor District | £ | 60.00 |
| TRAETHODYDD: Rhifyn Coffa T. Gwynn Jones, Ion. 1971 | £ | 2.50 |
| TRAETHODYDD: Rhifyn Coffa Waldo, Hyd. 1971 | £ | 2.50 |
| LLÊN CYMRU Cyf. 2, Rhif 1 | £ | 1.50 |
| LLÊN CYMRU Cyf. 3, Rhif 4 | £ | 1.50 |
| TALIESIN Cyf. 2 | £ | 1.50 |
| CEREDIGION Amryw rifynnau | £ | 1.00 |
| LLENOR Amryw rifynnau | £ | .50 |
| BEIRNIAD Amryw rifynnau | £ | .75 |

**Cludiant yn ychwanegol**